

Cyfarfod Pwyllgor Cyllid am Amcanion Cyffredinol,
Nos Fawrth 26ain o Dachwedd 2019,
yn Ystafell Glaslyn , Y Ganolfan , Porthmadog am 7:00

Presennol : Cynghorwyr: Gwilym Jones (Cadeirydd), Aled Griffith, Nia Jeffreys, Ian Jones, Glenda Burke (Clerc).

Ymddiheuriadau : Cynghorwyr : Selwyn Griffiths, Llywelyn Rhys.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, y Cyng. Gwilym Jones.

Archwilio'r cyfrifon. (Mantolen hyd at 19eg o Dachwedd ynghlwm).

Adroddwyd fod sefyllfa ariannol y Cyngor Tref yn dderbyniol ac yn cymharu'n ffafriol efo ffigyrau Tachwedd 2018. (£1,500 yn fwy). Mae gwariant mwyaf y Cyngor Tref i ddod sef costau Nadolig, cynnal offer Cae Chwarae Bodawen a cheisiadau ariannol blynyddol. Bydd penderfyniadau am doiledau cyhoeddus a Chlybiau Ieuencid hefyd yn gallu bod yn wariant sylweddol. Dylai incwm y Cyngor Tref godi yn sylweddol ar ôl arwyddo i'r cynllun meysydd parcio 10% ond ni fydd y taliad cyntaf wedi ei dderbyn tan y flwyddyn ariannol nesaf. Bydd y swm yma yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn.

Cafwyd eglurhad am yr ad daliad gan Gyngor Gwynedd tuag at gostau torri gwair ar rai llwybrau yn yr ardal.

Penderfynwyd : Derbyn y wybodaeth yn ôl cynnig y Cyng. Nia Jeffreys , eiliwyd gan y Cyng. Aled Griffith.

Dechrau trafodaeth ac ystyried lefel praesept 2020/2021.

Adroddodd y Clerc for Cyngor Gwynedd eisiau ateb am y praesept erbyn diwedd Ionawr 2020. Roedd y Cyngor Tref wedi codi'r praesept o 6% yn 2019/2020.

Roedd pawb yn gytûn y dylid ceisio peidio codi lefel y praesept fwy na raddfa chwyddiant. Cytunwyd fod y tabl roedd y Clerc wedi ei baratoi llynedd yn dangos faint fyddai bob % yn golygu i drigolion.

Penderfynwyd : Yn ôl cynnig y Cyng. Nia Jeffreys, eiliwyd gan y Cyng. Ian Jones y byddai'r pwyllgor llawn yn ei drafod mis nesaf a'r Clerc yn paratoi tabl cymhariaeth.

Penodi Archwiliwr Mewnol am 2019/2020

Adroddodd y Clerc fod y broses wedi bod yn un hwylus efo Cyngor Gwynedd a'u bod wedi bod yn drylwyr iawn gan gadw mewn cysylltiad yn ystod y broses. Roedd y ffi yn dderbyniol (£276.00) i gymharu efo faint y byddai cyfrifwyr wedi codi am wneud y gwaith. Roedd y ffi am y flwyddyn 2018/2019 yr un fath.

Penderfynwyd : Penodi Luned Fôn Jones , Cyngor Gwynedd fel archwiliwr mewnol yn ôl cynnig y Cyn. Ian Jones gyda'r Cyng. Aled Griffith yn eilio.

Biliau i'w talu :

Swyddfa Archwilio Cymru – archwiliad allanol 2018/2019 = £213.45

R J Electrics – costau profi / adnewyddu goleuadau Nadolig = £840.00
(adroddiad ar y bwrdd)

B2 - costau llungopio hyd at 8.11.19 ac ymlaen i 31.1.2020 = £36.84

Gofynnodd y Clerc am yr hawl i dalu dau fil arall oedd wedi eu derbyn am wariant disgwylidig sef:

Canolfan Ffensio a Melin Goed Glasfryn – coed Nadolig = £951.00

Penrhyn Hire Ltd – hurio cherry picker i osod y coed Nadolig = £126.72

Penderfynwyd : Talu'r biliau yn ôl cynnig y Cyng. Nia Jeffreys , eiliwyd gan y Cyng. Ian Jones.

Ceisiadau/ materion Cynllunio :

i) Apêl : C19/0321/44/LL- APP/Q6810/A/19/3240033

Cais llawn i godi tŷ preswyl/ Full application for the construction of a residential dwelling.
Land at Tan Y Foel, Borth Y Gest, Porthmadog, LL48 9UE

Penderfynwyd : Fod pryderon y Cyngor Tref yr un fath ac yr oeddent yn wreiddiol sef fod hyn yn or ddatblygu. Cynigwyd gan y Cyng. Ian Jones, eiliwyd gan y Cyng. Gwilym Jones.

ii) C19/1030/44/LL - Estyniad ac addasiadau i eiddo preswyl

5, Terrace Road, Porthmadog, LL499BA

Penderfynwyd : gwrthwynebu ar y sail nad yw yn gweddu efo gweddill y tai ar y stryd yn ôl cynnig y Cyng. Aled Griffith, eiliwyd gan y Cyng. Ian Jones.

iii) C19/1034/44/LL - Estyniad cefn

18, Heol Dora, Porthmadog, Gwynedd, LL499AF

Penderfynwyd : dim gwrthwynebu yn ôl cynnig y Cyng. Ian Jones, eiliwyd gan y Cyng. Aled Griffith.